

Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Dydd Iau 22 Tachwedd 2018 3:30 pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd

Yn bresennol:

Grace Zecca-Hanagan, Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Andrea Richards, Pennaeth rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Catrin Edwards, Pennaeth Trawsfurfio Gwasanaethau a Systemau Data
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Richard Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Sarah Corcoran, Uwch Ymgynghorydd Her - Consortiwm Canolbarth y De
Ellen Williams, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
32 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Croesawodd y Pennaeth swyddogion y Cyngor.

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor oedd yn bresennol.

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellu'r cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol-y-celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol-y-celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;

- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3 -16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen;

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal Graig Pontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen);
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd GD at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopiâu o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd GD y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd GD mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd ymlaen i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Eglurodd GD y bu cyfarfod yn gynharach y prynhawn hwnnw gyda Chyngor y Disgyblion lle cafodd y cynigion eu hegluro iddyn nhw a sesiwn holi ac ateb ei chynnal ar ôl hynny. Rhoddodd GD ddiolchiadau iddyn nhw am eu hamser a'u sylwadau.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

C. Sut a pham nad yw cyllid wedi'i ddyrannu i welliannau o fewn yr ysgol?

- A. Esgobaeth Gatholig Rufeinig sy'n gyfrifol am yr adeilad a chyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru gan fod y ffrwd ariannu yn wahanol i un ysgolion eraill.

Cafodd ei egluro bod swyddogion y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Esgobaeth Gatholig Rhufain i edrych ar yr opsiynau yma. Serch hynny, achos bod y cynnig yma wedi cael ei gyflwyno, mae ymgysylltu pellach wedi cael ei gynnal gyda'r Esgobaeth ac mae cyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng y ddau barti. Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn datblygu achos busnes ar gyfer gwelliannau i'r ysgol yn y dyfodol.

Mae gwelliannau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw wedi'u cynnal yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r ysgol o ran cynorthwyo'r ysgol i gynnal yr adeilad.

Mae Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn un o ysgolion grŵp teuluol y Cyngor a bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi'r ysgol yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion fod Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â hyn.

Amlinellodd y Pennaeth mai agwedd bositif ar y cynigion yma yw bod camau tuag at welliannau wedi dechrau cael eu cymryd.

- A. Rhoddwyd sylw bod cyflwr Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn cael ei feirniadu oherwydd, o bosibl, ei bod hi'n cael ei chymharu ag ysgolion sy'n cael arian drwy raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Band A.

C. Pam cafodd Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Coleg y Cymoedd a Choleg Chweched Dosbarth Dewi Sant eu dewis?

- A. Cafodd hyn ei seilio ar gyfraddau cadw, data a lleoliad.

Mae'r Cyngor yn ceisio cynnig ystod o opsiynau ar gyfer pobl ifainc. Ar hyn o bryd, mae diffyg yng nghyllideb Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ac mae'r chweched dosbarth yn cael cymhorthdal gan ei Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

Wrth edrych ar y data, ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn dewis cael eu haddysg mewn sefydliadau ôl-16 oed mewn llefydd eraill am sawl rheswm.

Yn ariannol, mae'n heriol cynnal chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain. Dim ond 36% o'r disgyblion sy'n

dewis dychwelyd i'r chweched dosbarth – maen nhw eisoes yn penderfynu mynd i lefydd eraill, er enghraifft, Dewi Sant a Choleg y Cymoedd.

Dydy swyddogion ddim yn dadlau yn erbyn safon yr addysg yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain. Rydyn ni angen mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb ac mae rhan o hyn yn cynnwys penderfynu a ddylen ni barhau i gynnal cyrsiau chweched dosbarth ac ati.

C. Dydy cymorth bugeiliol ddim yn cael ei gynnal oherwydd bod disgyblion yn symud o un ysgol i un arall. Sut gallwch chi sicrhau y bydd yr agwedd yma ar addysg yn cael ei chynnal?

A. Mae capasiti i ddarparu rhagor o athrawon arbenigol a rhagor o athrawon sy'n cynnig gofal bugeiliol. Bydd gwelliannau a systemau yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trefniadau pontio i sicrhau bod anghenion emosiynol disgyblion yn cael eu diwallu.

Un o ddibenion astudiaethau chweched dosbarth yw paratoi dsgyblion ar gyfer newid, ac mae modd elwa ar newid cyn ymgymryd ag Addysg Uwch.

C. Mae gan fy mab Syndrom Asperger ac mae'n bryderus am y newid yn barod. Mae'n rhagori yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain oherwydd ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth bugeiliol. O safbwynt ADY, rydw i o'r farn bydd hyn yn rhwystro ei ddysgu yn y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth ADY yn Ysgol Bryncelynnog o safon uchel ac mae dosbarth Cymorth Dysgu Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig yn rhan o'r ddarpariaeth honno. Mae diwygiadau yn nhrefnau ADY yn canolbwyntio ar gynllunio a mewnbwn ar gyfer yr unigolyn. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y cyfnod pontio yn un didrafferth. Mae'r coleg hefyd yn gwbl gynhwysol ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion penodol.

C. Cyfleoedd pontio i staff sy'n ymwneud â chyfnod pontio chweched dosbarth.

A. Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â staffio yn cael eu gwneud gan y corff llywodraethu. Efallai bod capasiti yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, a hithau'n ysgol fwy o faint, i gynnig rhagor o gyfleoedd i staff.

C. Pryder am ddisgyblion sy'n byw ymhell o Goleg Chweched Dosbarth Dewi Sant sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Cardinal Newman ac sydd am barhau â'u haddysg mewn lleoliad Catholig Rhufain - cludiant.

A. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu i Goleg Chweched Dosbarth Dewi Sant heb unrhyw gostau i ddisgyblion sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf - mae eisiau cytuno ar logisteg hyn.

C. Dalgylch Ysgol Cardinal Newman yw ardal Rhondda Cynon Taf i gyd. Sut byddai modd trefnu hyn?

A. Byddai'n dibynnu ar nifer y myfyrwyr a ble maen nhw'n byw. Efallai y bydd taccsis, bysiau mini neu fysiau mwy o faint yn cael eu defnyddio. Fydd dim gofyn i rieni dalu am y cludiant yma.

C. Oes trafodaethau gyda Choleg Chweched Dosbarth Dewi Sant wedi eu cynnal - a fyddai digon o lefydd ar gyfer y myfyrwyr?

A. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Phennaeth y Coleg - mae lle ar gael yn bendant.

Adleisiodd y Pennaeth sylwadau uchod y Prif Weithredwr. Byddai Ysgol Cardinal Newman yn dod yn ysgol gysylltiedig a byddai hynny'n cael ei nodi ym Mholisi Derbyn Coleg Chweched Dosbarth Dewis Sant - byddai'r disgyblion â'r un hawliau â'r rheiny o ysgolion eraill.

C. Ni yw'r unig ysgol sydd â disgyblion sydd ddim i gyd yn byw ym Mhontypridd. Gall hyn olygu bod llawer o'n disgyblion yn mynd i sefydliadau chweched dosbarth eraill sy'n agosach at eu cartrefi. Gall hon fod yn dasg gymhleth o ran logisteg - ble bydd y disgyblion yn mynd a rhywun i fod yn gyfrifol am y broses bontio.

A. Dydy'r cyfraddau cadw presennol ddim yn dda, gyda disgyblion yn mynd i leoliadau amrywiol. Bydd pob Chweched Dosbarth yn cynnal diwrnod agored er mwyn i ddisgyblion a rhieni ymgysylltu a gwneud dewisiadau.

A. Yn seiliedig ar ddata blaenorol, mae mwyafrif y disgyblion yn mynd i'r lleoliadau sydd wedi cael eu hawgrymu eisoes.

C. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - sut bydd hyn yn effeithio ar yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i chwaraeon yn yr ysgolion?

A. Esboniodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Hamdden. Mae ysgolion yn defnyddio canolfannau hamdden yn ystod y dydd ac mae aelodau'r cyhoedd yn eu defnyddio gyda'r nos. Mae cyfle i ysgolion ddefnyddio cyfleusterau hamdden lleol a bydd modd creu rhagor o gyfleoedd yn y dyfodol.

A. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi llawer o arian mewn canolfannau hamdden yn ddiweddar ac mae'r defnydd wedi cynyddu.

C. Oes data gyda ni ynglŷn ag i ba ysgolion/golegau yr aeth myfyrwyr chweched dosbarth Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Ysgol Gymuned y Porth ac Ysgol Nant-gwyn?

A. Caiff hyn ei olrhain er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at yr opsiynau chweched dosbarth y maen nhw eu hangen.

C. Ydy'r ffaith bod rhagor o arian yn cael ei wario ar ysgolion yn golygu y bydd yr ysgolion yn well ac a bydd deilliannau mwy llwyddiannus ar gyfer disgyblion?

- A. Mae darparu amgylchedd o'r radd flaenaf yn yr ysgolion yn helpu athrawon a disgyblion i wella.
- C. ***Mewn byd perffaith, hoffwn i weld y Chweched Dosbarth yn aros yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain. Serch hynny, rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn â'r sefyllfa rydyn ni ynnddi ac rydyn ni eisiau'r gorau ar gyfer Ysgol Cardinal Newman a'i disgyblion. Mae partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac awydd i symud ymlaen gyda'n gilydd er lles gorau ein disgyblion.***
- A. Nodwyd y datganiad a chadarnhawyd y berthynas gadarnhaol rhwng Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, mae diffyg mawr yn y gyllideb a byddai'n well gyda ni ymyrryd a rhoi cefnogaeth nawr i ddiogelu a datblygu'r ysgol ar gyfer disgyblion y dyfodol. Rydyn ni'n ymgymryd â hyn am y rhesymau iawn, a phan edrychwch chi ar yr ysgolion sydd wedi bod drwy'r broses yma, mae'r deiliant bob amser yn gadarnhaol.

Rhoddodd y swyddogion eu diolchiadau i'r staff ac amlinellu'r gwaith fydd yn cael ei wneud gyda'r Cyngor dros y misoedd sydd i ddod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm.